Ysgol Mynydd Bychan

‘O’r fesen derwen a dyf’

Llawlyfr Ysgol

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2024



Cynnwys

Croeso gan ein Pennaeth	1
Estyn: golwg annibynnol ar yr ysgol	1
Cysylltwch â ni	2
YSGOL MYNYDD BYCHAN	2
Ein hysgol	2
Ein harwyddair	2
Bwrdd Llywodraethol yr ysgol	3
Dysgu trwy'r Gymraeg	3
Cefnogi datblygiad iaith eich plentyn	3
Adnoddau defnyddiol	4
Derbyn disgyblion	4
Meithrin	4
Derbyn	4
Disgyblion yn ymuno yn ystod y flwyddyn addysgiadol	4
Diwrnod ysgol	5
Amserlen	5
Presenoldeb	5
Dyddiadau'r tymor a diwrnodau hyfforddiant mewn swydd	5
Clwb Brecwast	6
Clwb ar ôl ysgol	6
Ein Meithrin	6
Y Cwricwlwm	6
Cerddoriaeth	7
Addysg Grefyddol	8
Addysg Berthynas a Rhywioldeb	8
Gweithgareddau Corfforol	8
Diogelwch	8
Ymddygiad a threfniadau gwrthfwlian	9

Plant sy'n derbyn gofal	10
Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol	10
Datganiad mynediad	10
Gwisg ysgol	11
Cinio ysgol a bwyta'n iach	12
Prydiau am ddim	12
Polisi codi tâl ac ymweliadau addysgiadol	12
Symud ymlaen i'r Ysgol Gyfun	13
Partneriaeth gyda rhieni	13
Cwynion	14
Atodiadau	
Atodiad A: Rhestr staff ac aelodau Corff Llywodraethol	15
Atodiad B: Aelodau'r Corff Llywodraethwyr	16
Atodiad C: Ffigurau Presenoldeb	17 - 18
Atodiad Ch: Rhestr polisiau ysgol	19
Atodiad D: Defnydd delweddau digidol / fideo	20
Atodiad Dd: Cytundeb Ysgol / Cartref	21 - 22
Atodiad E: Dyddiadau Tymor	23

Croeso gan ein Pennaeth

Mae dechrau ysgol newydd yn garreg filltir bwysig ym mywyd plant, rhieni a gwarchodwyr. Fel staff ymroddedig, carem estyn croeso i chi a dileu unrhyw bryderon sydd gennych. Estynnwn groeso cynnes i chi gyd. Gobeithiwn y cewch Ysgol Mynydd Bychan yn ysgol fwriadus, hapus, lle mae'r plant a'r staff yn cyd-weithio'n hapus gyda'i gilydd.

Fel ysgol gynradd Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg ofalgar sydd wedi'i gefnogi gan ystod eang o brofiadau dysgu dwyieithog. Pwysleisir meithrin gwybodaeth a deall o ddiwylliant Cymru a meistroli rhugledd yn yr iaith Gymraeg. Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol. Dywed Estyn, "Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol".

Er bod llawer o'n disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg, mae'n bosibl i'r Gymraeg fod yn 'iaith fyw' i'ch plentyn, hyd yn oed os na fyddwch chi'n ei siarad eich hun. Darparwn wybodaeth ddwyieithog i rhieni. Mae yna nifer o ffyrdd y gall eich plentyn ddefnyddio'r iaith Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth a'r ysgol.

Er ei bod wedi'i lleoli yn y ddinas, rydym yn falch bod llawer o rieni yn dweud wrthym fod gan Ysgol Mynydd Bychan ymdeimlad clos o ysgol bentref. Credwn fod meithrin cysylltiadau cryf rhyngom ni a chi, ein teuluoedd ysgol, yw'r ffordd mwyaf effeithiol i gefnogi pob plentyn i gyrraedd ei botenisal.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu ein polisïau a'n bywyd ysgol o ddydd i ddydd. Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda Swyddfa'r Ysgol: 029 2061 3417 / ysgolmynyddbychan@cardiff.gov.uk. Y ffordd orau o gael ymdeimlad o'n hysgol yw ymweld â ni. Cysylltwch â ni os hoffech ymweld â'r ysgol. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod amser eich plentyn gyda ni yn Ysgol Mynydd Bychan yn un hapus a llwyddiannus.

Estyn

Crynodeb o'n hadroddiad arolygu diweddaraf gan Estyn:

"Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gymuned gynhwysol a chefnogol dros ben, sy'n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith clòs a thwymgalon yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy'n meithrin awyrgylch o ddysgu brwd ac ymdeimlad cadarn o berthnasedd i deulu'r ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac maent yn frwdfrydig iawn yn ystod gwersi a thasgau. Maent yn awyddus i gydweithio â'r staff a'i gilydd, ac o ganlyniad, i lwyddo fel dysgwyr hyderus ac uchelgeisiol."

Adroddiad Estyn, 2023

Mae'r adroddiad arolygu llawn ar gael o www.estyn.gov.wales/provider/6812180

Cysylltwch â ni

Ysgol: Ysgol Mynydd Bychan, Heol Seland Newydd, Caerdydd CF14 3BR Tel: 029 2061 3417 Ebost: ysgolmynyddbychan@cardiff.gov.uk Gwe: www.ysgolmynyddbychan.cymru **X** (Trydar): @mynyddbychan

Pennaeth: Mrs Glesni Lloyd Cadeirydd y Corff Llywodraethol: Mrs Jenny Williams

Awdurdod Addysg: Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Caerdydd CF1 5UW Tel: 029 2087 2000

Ysgol Mynydd Bychan

Ein hysgol

Ysgol gynradd sirol yw Ysgol Mynydd Bychan i fechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed. Oddi yma, mae'r plant yn mynd, fel rheol, ymlaen i Ysgol Uwchradd Glantaf.

Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 1993 mewn ystafell symudol ar dir Canolfan Addysg Howardian. Sefydlwyd yr ysgol ar ei safle bresennol ar Heol Eglwys Newydd yn 1994. Ar hyn o bryd, mae'n gwasanaethu maesdrefi mewnol dwyrain a gogledd ddwyrain Caerdydd, yn cynnwys Mynachdy, Cathays, Y Mynydd Bychan a Gabalfa.

Mae gennym wyth dosbarth, o'r Feithrin i Flwyddyn 6, gydag uchafswm o 30 disgybl ym mhob blwyddyn gyda 32 yn y Feithrin. Ym mis Mehefin 2024, mae 254 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys disgyblion Meithrin rhan amser. O Fedi 2024 fe fydd yna ddau ddosbarth Derbyn gyda 41 disgybl.

Gweler Atodiad A am restr staffio.

Arwyddair yr ysgol: O'r fesen derwen a dyf.

'O'r fesen derwen a dyf' yw arwyddair yr ysgol. Mae gennym ni weledigaeth gref a chadarn fod gan bob plentyn yr hawl cynhenid i ddysgu gyda'r pwyslais ar ddarparu awyrgylch ble gall ein disgyblion ddatblygu'n addysgiadol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol. Mae ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hanes fel Cymry yn ganolog i'r cwricwlwm a ddarperir, a'r nod yw trwytho'r disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn ymfalchio yn eu Cymreictod. Anelwn at:

- Sicrhau amgylchedd diogel, hapus, iach a gofalgar lle mae pob disgybl yn gallu disgleirio
- Cefnogi disgyblion ar draws eu datblygiad
- Datblygu meddyliau bywiog, chwilfrydig trwy annog rhesymu a dadlau rhesymegol
- Annog sgiliau bywyd fel meddwl, gwydnwch a chydweithrediad annibynnol
- Hyrwyddo dwyieithrwydd, gan sicrhau bod y disgyblion yn rhifog ac yn llythrennog yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Cynhyrchu gwerthfawrogiad o iaith a diwylliant Cymraeg
- Hyrwyddo ymddygiad da a pharch
- Cynnig cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion.

Y Corff Llywodraethol

Mae gan Fwrdd Llywodraethwyr ddyletswyddau, pwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Rhaid iddynt weithredu ar y cyd ac ni allant weithredu fel unigolion, gwnant benderfyniadau ynglyn â sut y dylid rhedeg ysgol. Cynhelir cyfarfod o'r Corff Llywodraethol o leiaf unwaith y tymor ac yn ol yr angen. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol o'r is-bwyllgorau yn dymhorol

Mae'r Llywodraethwyr yn cydweithio gyda'r Pennaeth i:

- gytuno ar amcanion a gwerthoedd yr ysgol
- benderfynu'r hyn sydd i'w ddysgu
- sefydlu safonau disgyblaeth
- adolygu cynnydd yr ysgol
- gyfweld ac apwyntio athrawon
- benderfynu ar sut i wario cyllid yr ysgol a chymeradwyo cynlluniau datblygu'r ysgol
- roi gwybodaeth i rieni am yr ysgol
- lunio cynlluniau gweithredu i sicrhau gwelliannau yn dilyn arolygon yr ysgol

Dysgu trwy gyfrwng Cymraeg

Cymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu naturiol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Gan fod ein hysgol yn un gynradd Gymraeg, ymdrechwn i ddatblygu a chyfoethogi gwybodaeth y plant o'r iaith Gymraeg a'u hymwybyddiaeth a'u gwerthfawrogiad o'r diwylliant Cymreig.
Disgwylir i'r plant siarad Cymraeg bob amser ac i gadw'r traddodiad o gymdeithas wir Gymraeg o fewn cyffiniau'r ysgol. Yn nosbarthiadau cynnar yr ysgol, trwythir y plant yn y Gymraeg er mwyn sicrhau meistrolaeth o'r iaith yn ieuanc.

Cyflwynir y Saesneg yn anffurfiol yn ystod tymor ola'r plentyn ym Mlwyddyn 2 pan fydd y dosbarth yn paratoi ar gyfer trosglwyddo i Flwyddyn 3. Nôd yr ysgol yw i'r plentyn gyrraedd ddwyieithrwydd lawn cyn trosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae safon y Saesneg yn gyfartal â disgyblion sydd yn siarad uniaith yn unig.

Cefnogi datblygiad iaith eich plentyn

Anogir rhieni sy'n medru'r Gymraeg i siarad â'u plant yn y Gymraeg ar bob achlysur. Sicrha hyn rwyddineb iaith y plant a meithrin eu hunan hyder. Cymhellir rhieni uniaith Saesneg i fynychu dosbarthiadau i 'ddysgwyr'. Croesawn gydweithrediad rhieni ac os bydd unrhyw rhiant yn dymuno cael gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg i oedolion, mae'r wybodaeth ar gael yn swyddfa'r ysgol ac ar ein gwefan. Mae dangos balchder yng ngallu eich plentyn i siarad Cymraeg yn magu eu hunan hyder. Mae llawer o rieni'r ysgol wedi dysgu Cymraeg.
Mae'n bwysig eich bod yn cymryd pob cyfle i gyflwyno'ch plentyn i'r iaith Gymraeg tu allan i furiau'r ysgol e.e clybiau allgyrsiol Cymraeg. Anogwch pobl rydych yn adnabod sy'n siarad Cymraeg i siarad gyda'ch plentyn yn y Gymraeg. Mae dwyieithrwydd yn agor drysau i ddau ddiwylliant gwahanol, mae cyflogwyr yng Nghymru yn rhestru sgiliau iaith Gymraeg yn gynyddol fel rhai hanfodol i lawer o swyddi.

Adnoddau defnyddiol

- www.s4c.cymru/cyw/
- www.bbc.co.uk/programmes/p04d9pps
- Duolingo App neu gwefan https://www.duolingo.com
- welshforadults.cardiff.ac.uk/
- www.meithrin.cymru/welsh-for-the-family/c58/
- www.cwrsmynediad.com/
- Llyfrau: Cant a Mil, Heol Eglwys Newydd; Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd; Y Caban, Pontcanna

Trefniadau derbyn i'r ysgol

Meithrin

Cysylltwch gyda Chyngor Caerdydd os ydych yn bwriadu ymgeisio am le yn y Feithrin. Derbynir plant i'r Feithrin yn y tymor ar ôl iddyn nhw troi'n 3 mlwydd oed. Y dewis yw 5 bore neu 5 prynhawn yr wythnos. Derbynir plant i'r Feithrin tair gwaith y flwyddyn: ar ddechrau tymor yr Hydref, Gwanwyn a'r Haf. Gweler taflen wybodaeth am y Feithrin ar wefan yr ysgol. www.ysgolmynyddbychan.cymru

Gweler: www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/Applying-for-a-school-place/Nursery/Pages/Nursery.aspx.

Dosbarth Derbyn

Derbynnir plant yn llawn amser i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi ar ôl eu pedwerydd pen-blwydd. Gallwch ymgeisio am hyd at 5 ysgol gynradd. Rhaid i chi llenwi ffurflen gais am le yn yr ysgol hyd yn oed os yw eich plentyn yn mynychu'r Feithrin. Gweler taflen wybodaeth am y Derbyn ar wefan yr ysgol. www.ysgolmynyddbychan.cymru
Gweler www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/Applying-for-a-school-place/Primary-school/Pages/Primary-school.aspx.
Cardiff Council Admissions: 029 2087 2909.

Plant sy'n ymuno ar adegau arall o'u haddysg

Rhoddir y cyfle i blant sy'n dechrau'r ysgol o fewn blwyddyn ysgol arall i ddod i ymweld â'r ysgol a threulio amser gyda'u dosbarth newydd (os y dymunant). Cewch y cyfle i drafod addysg flaenorol ac anghenion eich plentyn gyda'r Pennaeth.
Os yw'r plentyn yn oedran statudol ysgol (h.y yn mynychu ysgol Saesneg yn barod) heb fod yn addysg Gymraeg o'r blaen, ceir y cyfle i fynd i Uned Ymdrochi Sir Caerdydd am dymor neu fwy, 4 diwrnod yn yr uned iaith a diwrnod yn ôl yn y 'fam' ysgol. Lleolir yr uned ar safle Ysgol Groeswen.

Diwrnod Ysgol: Derbyn hyd at Fl 6

Derbyn i Fl 2

8:55:	Gloch yn canu, dosbarthiadau'n rhesi ar yr iard
9:00:	Cofrestru
9:05:	Gwersi
10:15-10:30:	Gwasanaeth
10.30 –10.45	Egwyl
10:45-12:00	Gwersi
12:00-13:00:	Cinio
13:00-14:00:	Gwersi
14:00-14:10:	Egwyl
14:10-15:15:	Gwersi
15:15:	Diwedd y dydd

Bl 3 i 6

8:55:	Gloch yn canu, dosbarthiadau'n rhesi ar yr iard
9:00:	Cofrestru
9:05-10:35:	Gwersi
10:35-10:50:	Gwasanaeth
10:50-11:05:	Egwyl
11:05-12:15:	Gwersi
12:15-13:15:	Cinio
13:15-15:20:	Gwersi
15:20:	Diwedd y dydd

Presenoldeb

Mae presenoldeb cyson a phrydlon yn angenrheidiol i addysg yr unigolyn. Edrychir ar absenoldebau disgyblion yn wythnosol; caiff y data ei ddadansoddi a phatrymau absenoldeb eu hadnabod. Bydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r cartref a'r Swyddog Presenoldeb i oresgyn unrhyw batrymau neu broblemau absenoldeb. Targed yr ysgol yw 96.2%. Gweler Atodiad C.

Gofynnir i'r plant ddod i'r ysgol yn brydlon. Mae cyrraedd y dosbarth yn hwyr yn anodd i'ch plentyn ac yn amharu ar addysg y dosbarth. Cyfrifir pob plentyn yn absennol os nad yw yn yr ysgol ar adeg cofrestru, absennol heb ganiatâd. Disgwylir i'r plant fod yn yr ysgol erbyn 9.00y.b.

Os bydd plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm, dylid rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith drwy ffôn neu lythyr. Rydym yn cydymffurfio â pholisi Cyngor Caerdydd, nodir unrhyw wyliau yn ystod y tymor fel absenoldeb heb ganiatâd.

.

Dyddiadau tymor a diwrnodau hyfforddiant mewn swydd

Cyhoeddir ddyddiadau blwyddyn ysgol gan Cyngor Caerdydd gweler: www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/Pages/default.aspx. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r dyddiadau ar wefan yr ysgol. Neulltuir chwech diwrnod bob blwyddyn ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i'r athrawon. Diwrnodau wedi tynnu allan o wyliau'r ysgol yw y rhain ac nid diwrnodau addysgu. Ceir manylion o'r dyddiadau mewn da bryd. Bydd un o'r 5 diwrnod i gydweithio gyda'r Ysgol Uwchradd Glantaf ar strategaeth Pontio. Ceir manylion o'r dyddiadau yma mewn da bryd.

Cyn ac ar ôl ysgol

Clwb Brecwast: Cynhelir Clwb Brecwast am ddim pob bore 8.25 – 8.50y.b. Bwriad y cynllun yw hybu iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o godi safonau dysgu a chyflawniad. Am resymau Iechyd a diogelwch rhaid i ni gadw at nifer penodol o blant yn ddyddiol.

Hysbysir rhieni ar ddiwedd tymor yr haf ar sut i wneud cais am le yn y clwb brecwast.

Clwb ar ol ysgol: Cynhelir Clwb ar ôl Ysgol yn ddyddiol rhwng 3.15 a 6.00. Cwmni Playworks sydd yn gyfrifol am y clwb. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Chwmni Playworks ar 029 2086 4780. Gweler http://playworks-childcare.co.uk/club/ysgol-mynydd-bychan/.

Ein Meithrin

Er bod addysg feithrin yn ddewisol ac mae gennym ni fynedfa ar wahân i'r brif ysgol, mae ein Meithrinfa Cyfrwng Cymraeg yn rhan o Ysgol Mynydd Bychan. Amser Meithrin bore: 9:15 tan 11:45. Meithrin: 12:55 tan 3:25. Mae ychydig o rieni yn defnyddio gofal 'wraparound' ar gyfer codi a gollwng eu plant cyn ac ar ôl amser cinio.

Y Cwricwlwm

Mae ein haddysgu wedi'i strwythuro o gwmpas gofynion Cwricwlwm i Gymru 2022. Rydym yn cynllunio gweithgareddau dyddiol yr ysgol i helpu eich plentyn i fod yn:

• ddysgwr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
• gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
• ddinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd, ac
• unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Gelwir rhain yn 'bedwar diben' y cwricwlwm. Yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, mae chwe maes dysgu a phrofiad: Y Dyniaethau; Iechyd a Lles; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Gwyddoniaeth a Thechnoleg; Mathemateg a Rhifedd; Y Celfyddydau Mynegiannol. Bydd popeth mae eich plentyn yn ei ddysgu yn gysylltiedig â'r meysydd hyn.

Mae'r cwricwlwm hefyd yn ymdrin â:
• hawliau dynol
• amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau
• profiadau a sgiliau ar gyfer gyrfaoedd a'r gweithle

• dysgu am gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
• addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb sy'n briodol o ran datblygiad y plentyn

Cyflwynir dysgu dan wahanol themâu gan roi ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gyfoethogi eu datblygiad emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol. Mae llais y disgybl yn bwysig iawn. Rhoddir cyfle i'r disgyblion ddweud beth hoffent ddysgu o fewn pob thema.
Cyhoeddir fapiau cwricwlwm yn dymhorol fel eich bod yn ymwybodol o'r hyn sydd yn cael eu haddysgu o fewn y thema yn nosbarth eich plentyn. Mae asesu yn rhan o'n trefn ddyddiol, gyda'r disgyblion yn cael eu haddysgu i asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Rydym hefyd yn gofyn iddynt helpu i osod eu targedau dysgu eu hunain.

Rydym yn defnyddio'r asesiadau rheolaidd hyn i gynllunio cam nesaf dysgu pob disgybl. Mae pob disgybl o Flwyddyn 2 i Fl 6 yn sefyll asesiadau personol mewn Darllen Cymraeg a Saesneg, Rhesymu a Rhifedd yn Nhymor yr Haf. Byddwch yn derbyn adroddiad sy'n manylu ar sut mae canlyniadau eich plentyn yn cymharu ar lefel ysgol ac yn dangos cynnydd dros amser.

Cerddoriaeth

Caiff cerddoriaeth ei blethu trwy gydol ein gweithgareddau cwricwlwm. O Flwyddyn 2 ymlaen, rydym yn cynnig hyfforddiant offerynnol â thiwtoriaid sy'n ymweld o Wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro. Bob blwyddyn rydym yn eich gwahodd i fynychu dathliadau dosbarth lle gwelwch chi'ch hun y rôl mae cerddoriaeth yn ei chwarae yn nysgu eich plentyn. Mae gennym ni hefyd gôr ysgol llwyddiannus, gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau, sioeau, cystadlaethau canu Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl Gymreig Tafwyl.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Nid ydym yn gysylltiedig ag unrhyw enwad crefyddol. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o'r cwricwlwm ac rydym yn cynnal gwasanaethau dyddiol. Rydym yn annog disgyblion i barchu gwerthoedd crefyddol a ffyrdd eraill o fyw trwy ddysgu am wahanol grefyddau gyda phwyslais ar Gristnogaeth. Rydym weithiau'n cymryd disgyblion i ymweld â mannau addoli yn ein cymuned leol.

Mae gan rhieni'r hawl i'w plant beidio mynychu'r gwasanaethau. Mewn achosion o'r fath, nid yw'r ysgol yn darparu dim yn eu lle. Nid oes hawl gan rieni i dynnu eu plentyn o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r ysgol yn dilyn Côd Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Llywodraeth Cymru er mwyn ateb adran 71 o'r ddeddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru (2021) Mae'r canllawiau hyn yn ganllawiau statudol. Darparwyd y Côd gan yr ysgol mewn ymgynghoriad gyda'r Corff Llywodraethol. Yr amcan yw sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ennill gwybodaeth a sgiliau fel arf ar gyfer bywyd oedolyn. Annogir y plant i feddwl am ofalu amdanynt eu hunain ac am eraill ac hefyd am berthynas rhwng pobl a'i gilydd.
Bydd plant Derbyn i Fl 6 yn derbyn gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu, fel rhan ehangach o addysg iechyd.
Nid oes gan gan y rhieni hawl i dynnu eu plentyn allan o unrhyw rhan o'r rhaglen.

Addysg Gorfforol

Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu hunanhyder, ymwybyddiaeth a rheolaeth symudiadau, yn ogystal â sgiliau chwaraeon y disgyblion. Rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau corfforol gan gynnwys gymnasteg, dawns, athletau, gwersi nofio, ac hyfforddiant beicio ffordd i ddisgyblion hŷn.

Rydym yn cymryd rhan mewn cystadlaethau rhyng-ysgol gan gynnwys pêl-rwyd, rygbi, pêl-droed, criced a nofio. Rydym yn cynnig clybiau ar ôl ysgol, rhai yn cael eu rhedeg gan staff ac eraill gan ddarparwyr allanol, gan gynnwys pêl-rwyd, dawns, pêl-fâs, rygbi a phêl-droed. Mae croeso cynnes i chi ddod i'n mabolgampau blynyddol yn y ganolfan athletau dan do genedlaethol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, Cyncoed.

Diogelwch a Diogeledd

Mae'n hanfodol bod ein disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae cynlluniau gwacáu wedi'u sefydlu mewn argyfwng. Mae ein giatiau wedi'u cloi bob amser. Mae'r giât wrth y brif fynedfa yn cael ei chloi yn ystod amser egwyl a chinio. Rhaid i ymwelwyr lofnodi yn Swyddfa'r ysgol.

Mae camerâu diogelwch ar waliau allanol yr ysgol ac ni chaniateir i unrhyw un fynd i mewn i'r adeilad heb ganiatâd. Os bydd eich plentyn yn cael damwain tra yn ein gofal, byddwn yn cysylltu â chi.

Mewn argyfwng, os bydd yr ysgol yn methu â chysylltu â rhiant neu warcheidwad, bydd aelod o staff yn mynd â'r plentyn i adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru yn y Mynydd Bychan.

Dywedwch wrthym os oes unrhyw un arall yn casglu eich plentyn gan y byddwn ond yn caniatáu iddo adael gyda rhywun arall os ydych wedi rhoi gwybod i ni ymlaen llaw.

Rhowch wybod i ni yn gyfrinachol am unrhyw newidiadau mawr i drefniadau cartref eich plentyn.

Ni chaniateir unrhyw gŵn ar fuarth yr ysgol ar unrhyw adeg.

Ni chaniateir ysmygu yn yr ysgol, ar dir yr ysgol nac o amgylch gatiau /ffens yr ysgol.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio achosion tybiedig o gam-drin plant at yr awdurdodau perthnasol. Cyhoeddir ein polisi Diogleu ar ein gwefan. Mr Marc Jon Williams yw'r aelod staff dynodedig ar gyfer diogelu plant. Y llywodraethwr cyfrifol yw Dr Bethan Phillips. Dylid codi unrhyw bryderon cychwynnol gyda Mr Marc Jon Williams, neu gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr ac Adnoddau Dynol, Neuadd y Sir os yw'r pryder yn ymwneud â'r pennaeth.

Peidiwch â rhannu delweddau na fideo o ddisgyblion eraill ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys yn ein gwasanaethau dosbarth, cyngherddau Nadolig a mabolgampau.

Mae gennym gyfrif X(Twitter) cyfyngedig. Rydym ond yn defnyddio lluniau disgyblion y mae gennym ganiatâd rhieni ar eu cyfer. Addysgir y disgyblion sut i aros yn ddiogel ar-lein fel rhan o wersi technoleg gwybodaeth. Gofynnwn iddynt lofnodi contract defnyddio'r rhyngrwyd yn gyfrifol. Cyhoeddir ein polisi e-ddiogelwch ar y wefan. Gweler Atodiad E

Ymddygiad a threfniadau gwrthfwlio

Un o brif nodau ein hysgol yw bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg. Rydym yn gymuned ofalgar, mae ein gwerthoedd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch i bawb. Mae gan yr ysgol nifer o reolau, ond nid yw ein polisi ymddygiad yn ymwneud yn bennaf â gorfodi'r rheol. Mae'n fodd o hyrwyddo perthnasoedd da, fel bod pobl yn gallu gweithio gyda'i gilydd gyda'r diben cyffredin o helpu pawb i ddysgu. Credwn fod canmoliaeth ac anogaeth yn cynyddu llwyddiant a chymhelliant. Mae'r ysgol yn

gweithredu system wobrwyo lle rydym yn ' chwilio am ' ymddygiad da, ymdrech, moesgarwch, caredigrwydd, dyfalbarhad a pharch at eraill. Gweler ein polisi ymddygiad. http://www.ysgolmynyddbychan.cymru/en/rhieni/polisiau/

Rydym yn disgwyl i ddisgyblion ddangos cwrteisi a charedigrwydd. Nid yw bwlio byth yn dderbyniol. Lle byddwn yn cael gwybod amdano, byddwn yn gweithredu ar unwaith i'w atal a byddwn yn cysylltu â chi i drafod y sefyllfa. Ein prif gymhelliad yw diogelu lles emosiynol pob disgybl. Rydym yn cynnal mentrau gwrth-fwlio i atgyfnerthu pwysigrwydd trin pobl eraill â pharch. Gweler ein polisi Gwrthfwlio.http://www.ysgolmynyddbychan.cymru/en/rhieni/polisiau/

"Maent yn ymddwyn yn ardderchog yn y dosbarthiadau heb anogaeth staff, ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd." Estyn 2023

Plant dan ofal

"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u hadnabod ag ADY yn gadarn iawn." Estyn 2023

Bydd disgyblion sy'n derbyn gofal gan rywun heblaw eu rhieni yn cael eu cefnogi a'u trin yr un peth â'u cyfoedion yn ein hysgol ni. Yr aelod staff â chyfrifoldeb dynodedig am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yw Mrs Wendy Wylie. Mr Marc Jon Williams yw'r Swyddog Diogelwch.

Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Efallai y bydd rhai plant yn wynebu heriau penodol a all fod yn rhwystr i ddysgu. Ein nod yw sicrhau darpariaeth gynnar er mwyn ceisio datrys unrhyw broblem cyn iddi waethygu, er mwyn i ni allu gweithio mewn partneriaeth â chi i gynllunio'u haddysg a sicrhau bod cymorth addas ar gael.

Ein cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yw Mrs Wendy Wylie. Siaradwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Datganiad Mynediad

Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi'i ymrwymo i weithio tuag at gydraddoldeb waeth beth fo hil, oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefyddol neu anghredinwyr, cefndir teuluol neu unrhyw nodwedd unigol sydd yn amharu ar gyfleoedd bywyd person. Rydym yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at wahaniaeth ac yn meithrin parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae'r ysgol yn hygyrch i'r holl staff, disgyblion a rhieni. Mae ganddi lifft, toiledau anabl a mynedfeydd â rampiau sy'n galluogi pobl i fynd i bob rhan o'r ysgol. Mae Ysgol Mynydd Bychan yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cael ei wahaniaethu er mwyn bodloni anghenion a diddordebau pob disgybl gan ystyried unrhyw anableddau.

Gwisg Ysgol

Rydym yn annog ein disgyblion i ymfalchïo yn logo a gwisg ysgol ein hysgol. Mae gofyn i bob disgybl o'r dosbarth Derbyn i fyny wisgo gwisg ysgol. Mae'n ddewisol yn y Feithrin.

Mae ein gwisg ar gael i'w brynu o'r YC Sports, Crwys Road ond mae modd prynu siwmperi ‘jade’ a chrysau polo ‘jade’ / gwyn heb logo’r ysgol mewn siopau/archfarchnadoedd.

Rhaid gwisgo esgidiau ysgol du, dim trainers.

Rhowch enw eich plentyn ar bob eitem o’r wisg ysgol.

Grant Datblygu Disgyblion

Mae Grant Datblygu Disgyblion ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, bagiau ysgol, deunydd ysgrifennu ac ati. Nid oes hawl defnyddio’r grant hwn ar gyfer TG. Ffurflen gais am Grant Datblygu Disgyblion.

https://www.cardiff.gov.uk/pupildevelopmentgrant

Mae gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) grŵp ar Facebook i drefnu prynu / gwerthu / cyfnewid gwisg ysgol YMB i'n galluogi i ailddefnyddio, ailgylchu dillad a hefyd cefnogi ein teuluoedd.

https://www.facebook.com/groups/3547524565358718/

Cynhelir stondin gwisg ysgol ail law dwy waith y flwyddyn ar iard yr ysgol ac hefyd yn ystod prynawn agored y Feithrin a’r Derbyn.

Gwisg Ymarfer Corff: Crys –t Llys, siorts/’leggings’, trackwisg tywyll (du/nefi). Fe fydd angen crys chwys pan fydd y tywydd yn oer.

Mae angen crys-t Llys ar ddisgyblion llawn-amser. Byddwn yn rhoi gwybod i rhieni’r dosbarth Derbyn ym mha Lys y mae’ch plentyn yn perthyn iddo yn nhymor yr Hydref. Mae'r crysau-t Ymarfer Corff ar gael o Swyddfa'r ysgol. Os am brynu hwdis Ymarfer Corff, defnyddiwch y linc canlynol- https://www.totalteamwearuk.com/clientshops/ysgolmynyddbychanhoodie/ysgolmynyddbychanhoodie2023.htm

Am fanylion llawn am ein gwisg swyddogol, gweler www.ysgolmynyddbychan.cymru/en/rhieni/gwisg-ysgol/.

Gemwaith - Am resymau Iechyd a Diogelwch a’r ffaith ei fod yn anaddas ar gyfer gwisg ysgol, nid ydym yn caniatau i blant wisgo gemwaith i’r ysgol. Yn ôl yr Awdurdod Addysg Lleol rhaid tynnu pob darn o emwaith yn ystod gwersi Ymarfer Corff a gwersi ymarferol eraill. Os oes gan eich plentyn emwaith yn yr ysgol, eu cyfrifoldeb nhw yw’r gemwaith ar bob adeg.

Ni ddylid wisgo lliw ar yr ewinedd (nail varnish) i’r ysgol.

Gwallt - Fel rhan o'r wisg ysgol, dylir cadw gwallt yn daclus. Dydyn ni ddim yn derbyn steil gwallt eithaf. Dylir cadw'r gwallt yn ôl o'u hwynebau a'u llygaid ac os yw'n hir dylir ei glymu yn ôl.

Cinio Ysgol a Bwyta'n Iach

Gall disgyblion amser llawn gael cinio poeth gan Gyngor Caerdydd neu ddod â phecyn cinio. Mae disgyblion Derbyn, Bl 1, 2, 3 a 4 yn derbyn cinio am ddim.

Rhaid archebu cinio ysgol ymlaen llaw a thalu gan ddefnyddio Parent Pay. Er mwyn hyrwyddo ein polisi iechyd, gofynnwn yn garedig bod y pecyn bwyd yn cynnwys dewis iach o fwyd a diod.

Gall disgyblion ddod â ffrwythau i'w fwyta yn ystod amser egwyl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y dydd. Mae perfformiad meddyliol yn gwella trwy yfed dŵr, mae plant yn canolbwyntio'n llawer gwell pan nad ydynt yn dioddef o symptomau dadhydradu - sychedig, blino ac aflonyddwch. Mae gennym ffynnon ddŵr yn yr ysgol. Gall disgyblion ddod â botel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol a'u cadw yn y dosbarth. Rhowch enw'ch plentyn ar y botel os gwelwch yn dda.

Prydiau am ddim

Os rydych yn derbyn budd-daliadau neu lwfansau, efallai y bydd gan eich plentyn hawl i fod ar y gofrestr brydau ysgol am ddim. Rhoddir cymorth i ysgolion gefnogi'r disgyblion hynny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim i gefnogi eu haddysg. Darganfyddwch a ydych chi'n gymwys: http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/foodanddrink/freeschoolmeals/?lang=en.

Polisi Codi Tal ac Ymweliadau Addysgiadol

Nid ydym yn codi tāl am weithgareddau a gynhelir fel rhan o'r Cwricwlwm ar wahân i hyfforddiant cerddoriaeth dewisol. O bryd i'w gilydd, rydym yn trefnu teithiau ac ymweliadau i gyfoethogi profiadau addysgol ein disgyblion. Rydym yn eich gwahodd i wneud cyfraniad gwirfoddol tuag at gost y rhain. Lle nad ydym yn cael digon o gyfraniadau i dalu am gostau, efallai na fydd teithiau'n mynd ymlaen. Os yw'ch plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, efallai y bydd yr ysgol yn talu costau taith. Gofynnwch am fanylion.

Mae ein tripiau blynyddol yn cynnwys ymeliadau preswyl yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar arfordir Ceredigion, Ffermdy Maes y Fron, Abercraf, Cwm Nedd a Storey Arms ym Mannau Brycheiniog. Mae yna nifer o ymweliadau addysgol arall hefyd sy'n cefnogi gwaith thematig a chwricwlaidd y dosbarthiadau.

Symud ymlaen i'r Ysgol Gyfun

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn nhalgylch Glantaf. Mae perthynas agos rhwng y dair ysgol gyfun Cymraeg ac fe gaiff disgyblion blwyddyn 6 gyfle i ymweld â'u hysgolion uwchradd yn dymhorol cyn dechrau yno.

Ym mis Hydref bob blwyddyn, mae Blwyddyn 6 yn treulio pum niwrnod yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog yn dod i adnabod plant o ysgolion eraill o fewn dalgylch Glantaf.

Partneriaeth gyda Rhieni

Credwn fod y bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol yn un hynod o bwysig ac un fydd yn datblygu wrth i'r athro a'r riant rannu gwybodaeth am y plentyn. Caiff y bartneriaeth yma ddylanwad bwysig ar ddatblygiad eich plentyn yn yr ysgol.

Rydym yn gweithredu polisi drws agored yn yr ysgol h.y gall rhieni gysylltu gyda'r athrawon ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd. Os ydych am drafod rhywbeth gyda'r Pennaeth neu athro eich plentyn gofynnwn yn garedig i chi wneud apwyntiad.

Rydym yn cadw cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref drwy neges destun, e-bost, negeseuon ar Seesaw, X (Trydar), e-bostir llythyron gwybodaeth/newyddion atoch. Rydym yn danfon llythyr papur allan at rieni sydd heb y we adref.

Gwefan yr ysgol

Mae'r holl wybodaeth am yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol ar - https://www.ysgolmynyddbychan.cymru

Os oes gennym unrhyw bryderon am eich plentyn byddwn yn cysylltu gyda chi er mwyn cynnal trafodaeth. Cydweithiwn yn agos gyda'n gilydd i sicrhau bod eich plentyn yn llwyddo yn ystod ei amser yn Ysgol Mynydd Bychan.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon

Rydym yn dra ffodus fod gan yr ysgol Gymdeithas Rieni ac Athrawon sy'n cwrdd yn rheolaidd yn yr ysgol er mwyn trefnu gweithgareddau amrywiol ar gyfer pob tymor. Annogir pob rhiant i gymryd rhan.

Aiff yr arian a gesglir gan y Gymdeithas tuag at helpu i gludo plant i weithgareddau allgyrsiol ac i brynu adnoddau arbennig i'r ysgol.

Cwynion

Cafodd canllawiau yr Awdurdod ar gyfer cyflwyno cwyn sêl-bendith y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â chwynion ynglyn â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Rhaid i'r Corff Llywodraethol roi gwybod i rieni sut i gyflwyno cwyn ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn gryno yn y llawlyfr hwn. Gweler y Polisi Codi Cwyn yn llawn ar wefan yr ysgol.

Wrth ddelio â chwynion bydd angen dilyn y camau canlynol. Y bwriad yw delio gyda'r mwyafrif o gwynion yn y camau cyntaf. Mae tri cham i'r cwynion ar lefel ysgol.

Cam A	Cam anffurfiol	Y bwriad yw datrys y mwyafrif helaeth o bryderon yn anffurfiol.
Cam B	Ymchwiliad y pennaeth	Os na lwyddir i ddatrys y broblem yn anffurfiol, dylid hysbysu'r pennaeth yn ysgrifenedig, a bydd hi'n gwneud ymchwiliad ffurfiol.
Cam C	Adolygiad y Corff Llywodraethu	Os na fydd cam 1 a cham 2 wedi bodloni'r rhieni dylid hysbysu'r Corff Llywodraethu yn ysgrifenedig, a bydd y llywodraethwyr yn mynd ati i ddilyn trefn ffurfiol er mwyn darganfod y ffeithiau, datrys y cwyn os yw'n bosibl, ac argymell pa gamau y gellid eu cymryd er mwyn osgoi digwyddiad cyffelyb yn y dyfodol, os yw hynny'n briodol.

Os na fydd y person sydd wedi gwneud y cwyn yn fodlon gyda chanlyniad adolygiad y Corff Llywodraethu, gellir cymryd dau gam ychwanegol. Bwriad y camau hyn yw adolygu'r ffordd y trafodwyd y cwyn; nid ail-wrandawiad o'r cwyn ydyn nhw.

Cam Ch	Adolygiad y Cyngor Sir	Adolygu Gweithdrefnau
Cam D	Adolygiad Llywodraeth Cymru	Adolygu gweithdrefnau

Atodiad A

Staff yr ysgol

Pennaeth
Mrs Glesni Lloyd

Dirprwy Bennaeth
Mr Iolo Williams

Athrawon
Miss Lois Williams - rhan amser 0.8
Mrs Fflur Ellis – rhan amser 0.4
Miss Medi Williams- rhan amser 0.8
Mrs Non Bullen – rhan amser 0.6
Mr Marc Jon Williams
Miss Elise Watts
Mr Tomos Rogers
Miss Lucy Werrett
Mr Gruffydd Hughes
Mrs Wendy Wylie – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhan amser 0.4
Mrs Elvira Griffiths – Athrawes Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) Bl 2, 3, 4, 5 a 6, rhan amser, 0.5
Mrs Vikki Tudur –Athrawes CPA Meithrin, Derbyn a Bl 1, rhan amser 0.3

Cynorthwywyr Dysgu Dosbarth (CDD)
Miss Rachel Chugg (Cynorthwyydd Addysg Lefel Uwch)
Mrs Claire Slessor - rhan amser 0.8
Miss Lisa Powell
Mrs Beth Bradbury
Miss Amy Styles
Mr Hywel George (1:1, gweithio gyda disgybl unigol)
Miss Natasha Hill (1:1 gweithio gyda disgybl unigol)
Miss Elin Evans
Miss Gwen Thomas
Miss Siwan Gordon

Ysgrifenyddesau
Mrs Lynda Pennar (Llun, Mawrth, Mercher, bore Iau)
Mrs Jenny Williams (Iau a Gwener)

Gofalwr
Mr Chrisitian Stevenson

Clwb Brecwast
Mrs Claire Slessor (Llun – Iau)
Ms Lisa Powell
Mrs Cath Maddaford
Mrs Jenny Williams (Llun, Mawrth, Mercher)
Mrs Lovely Hope
Mrs Esraa Al Helu (Mawrth, Mercher, Iau)

Gweinyddesau Cinio
Mrs Esraa Al Helu
Mrs Mary Spitterri
Mrs Helen Robinson - rhan amser (0.6)
Mr David Pert
Ms Tina Jones

Atodiad B

Mae gan lywodraethwyr ysgol ddyletswyddau, pwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Rhaid iddynt weithredu ar y cyd ac ni allant weithredu fel unigolion.

"Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad a phrosesau'r ysgol. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol iawn gyda'r arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir."
Adroddiad Estyn Rhagfyr 2015

Mae llywodraethwyr ysgol yn:
- rhieni
- athrawon yn yr ysgol
- cynrychioli'r Awdurdod Addysg
- gweithio yn yr ysgol ond nid fel athro neu athrawes
- gyfetholedig.

Mae rhiant lywodraethwr yn:
- rhiant i blentyn yn yr ysgol
- cael ei/eu (h)ethol gan rieni'r ysgol
- gwasanaethu, fel llywodraethwyr eraill, am bedair mlynedd.

Cadeirydd - Mrs Jenny Williams
Is-Gadeirydd - Mr Cerith Rhys Jones

Pennaeth
Mrs Glesni Lloyd

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol
Mr Rhys Taylor
Mr Cerith Rhys Jones
Ms Cadi Thomas

Cynrychiolydd Athrawon
Mr Tomos Rogers

Cynrychiolydd staff sydd ddim yn addysgu
Mrs Beth Bradbury

Cynyrchiolwyr Rhieni
Dr Mirain Rhys
Mrs Emiko Hughes
Dr Bethan Phillips
Mr Gareth Jones

Llywodraethwyr wedi'u cyfethol
Miss Suzanna Neesom
Mrs Jenny Williams
Mrs Laura Dobson

Clerc i'r llywodraethwyr
Mrs Ann Williams

Daw rhieni sydd yn lywodraethwyr â barn rhieni i'r Corff Llywodraethol ond disgwylir iddynt siarad a gweithredu fel unigolion. Ni ddylent ystyried eu hunain fel llais na chennad ar ran y rhieni: nid ydynt yn pleidleisio dros yr holl rieni'n gyffredinol. Cânt statws cyfartal yng ngwaith y Corff Llywodraethol a chânt hawliau pleidleisio.

Atodiad C

Data Presenoldeb 04/09/2023 – 19/07/2024

Presenoldeb	95.7%
Absenoldeb â chaniatâd	3.0 %
Absenoldeb heb ganiatâd	1.3 %

Mae'n ddyletswydd ar bob ysgol i anfon data presenoldeb i'r Cyngor Addysg yn wythnosol ynghyd â chadw golwg ar batrymau absenoldebau'r disgyblion.

Targed yr Ysgol yw 96.2%.

Mae'r ysgol a'r Swyddog Presenoldeb yn monitro presenoldeb pob plentyn yn gyson.

Amgaewn dabl sy'n dangos presenoldeb eich plentyn ynghyd â'r Cyfarwyddiadau Cenedlaethol sydd yn ymwneud â lefelau presenoldeb sy'n berthnasol i gynnydd plentyn, gwyliau yn ystod tymor ysgol ac absenoldeb wedi ei ganiatáu.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac y byddwch yn ein helpu i sicrhau presenoldeb da yr ysgol.

Mae'r tabl isod yn cymharu presenoldeb eich plentyn gyda chanllawiau cenedlaethol.

Presenoldeb eich plentyn	Canllawiau Cenedlaethol
95 -100%	Siawns orau o gyflawni i'r potensial llawn. Mae eich plentyn yn cymryd mantais llawn o bob cyfle i ddysgu.
90 – 95%	Boddhaol. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn gymryd amser i ddal i fyny gyda gwaith.
85 – 90%	Achos i bryderi. Mae'n bosib bydd eich plentyn yn tangyflawni.
80 – 85%	Achos i bryderi. Mae'n bosib bydd angen i'ch plentyn dderbyn cymorth ychwanegol gennych chi gyda'r gwaith.
Yn llai na 80%	Posibilrwydd fod eich plentyn yn colli ar addysg eang a chytbwys.

Gwyliau yn ystod y tymor – Nid oes gan rieni hawl i fynd a'u plant ar wyliau yn ystod y tymor.

Absenoldeb o'r ysgol – A wnewch chi roi gwybod i'r ysgol drwy ffonio/ar lafar/anfon nodyn ar y diwrnod cyntaf os yw'ch plentyn yn mynd i fod yn absennol o'r ysgol. Rydym yn pryderu am absenoldeb unrhyw blentyn. Os nad ydych yn rhoi gwybod i'r ysgol am unrhyw absenoldeb bydd eich plentyn yn cael marc absenoldeb heb awdurdod.
Diolch am eich cydweithrediad yn y mater hwn.

Salwch, moddion a thabledi
Ni ddisgwyliwn weld plant yn yr ysgol os ydynt yn sâl. Os cymerir eich plentyn yn sâl tra yn yr ysgol, byddwn yn cysylltu â chi yn union.
Rydym yn dilyn Polisi Iechyd y Sir ynglyn â moddion a thabledi. Dywed ein cyngor meddygol nad oes angen i blant gymryd antibiotig yn ystod oriau ysgol. Plîs gofynnwch i'ch meddyg i roi moddion i'ch plentyn nad oes angen i'w gymryd yn ystod y dydd. Os oes angen moddion ar eich plentyn yn ystod y dydd rhaid i'ch plentyn naill a'i fynd adref i gael ei foddion neu gallwch chi ddod i'r ysgol i roi'r moddion iddo/iddi.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Pennaeth neu'r Dirprwy (yn absenoldeb y Pennaeth) roi moddion amser cinio i'ch plentyn. Mewn achlysur fel hyn rhaid i oedolyn cyfrifol ddod â'r moddion at y swyddfa peth cyntaf yn y bore, llenwi ac arwyddo ffurflen ganiatád. Ni ddylid danfon plant ar unrhyw achlysur i'r ysgol â moddion yn eu bagiau.

Mae hawl gan yr ysgol i wrthod rhoi moddion os yw'r penderfyniad yn un rhesymol ac er lles yr ysgol. Ni fydd yr ysgol yn cytuno i roi moddion os na fydd gennym ffurflen ganiatád wedi'i harwyddo.

Rhaid hysbysu'r ysgol os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol hir dymor. Fe wnawn ni bopeth o fewn ein gallu i'w galluogi i fynychu'r ysgol yn gyson. Os fydd angen gweinyddiad argyfwng o foddion rhaid derbyn cynllun iechyd unigol gan y meddyg, nyrs ysgol neu unrhyw arbenigwr meddygol arall. Cyfrifoldeb y rhieni yw hi i hysbysebu'r ysgol am unrhyw fath o newid i'r moddion neu os yw'r meddyg wedi stopio'r driniaeth.

Gyda chaniatád rhieni, gosodir ffotograffau yn yr ystafell athrawon, y gegin, swyddfa'r Pennaeth a'r brif swyddfa o'r plant sy'n dioddef alergedd sy'n gofyn am epipen a phlant sydd ag anghenion meddygol hirdymor e.e clefyd y siwgr, epilepsi. Gwneir hyn fel bod yr holl staff (yn cynnwys athrawon peripatetig a chyflenwi) yn ymwybodol pwy yw'r plant a beth yw eu hanghenion.

Os bydd plentyn yn dioddef o'r fogfa, bydd yr ysgol yn barod i'w helpu i ddefnyddio anadlydd, ond rhaid i'r rhieni lenwi'r ffurflen ganiatâd briodol i'n galluogi i wneud hynny. Nid ydym yn disgwyl gweld plant yn yr ysgol os ydyn nhw'n sâl. Os bydd eich plentyn yn sâl tra yn yr ysgol, byddwn yn cysylltu â chi ar unwaith.

Hysbysiadau Cosb Benodedig

Mewn rhai amgylchiadau, bydd yr ysgol efallai yn gofyn bod y Gwasanaeth Lles Addysg i gyhoeddi rybudd o Hysbysiad Cosb Benodedig o dan Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 i rieni / warcheidwaid. Bydd llythyr o rubydd yn cael ei ddanfon os;

• Bu 10 sesiwn heb awdurdod o fewn un tymor ysgol;
• Mae plentyn wedi bod yn hwyr (ar ôl i'r cofrestr gau) ar 10 achlysur o fewn un tymor ysgol;
• Mae rhieni / warcheidwaid wedi methu cymryd rhan mewn ymdrechion i wella presenoldeb;
• Mae'r heddlu wedi dod o hyd i ddisgybl yn rheolaidd o fod yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol.

Bydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyhoeddi os:
• Mae un absenoldeb anawdurdodedig pellach o fewn 15 diwrnod ysgol o lythyr rhybudd yn cael ei gyhoeddi;
• Mae gwyliau heb awdurdod yn cael eu cymryd yn ystod y tymor (noder nad oes llythyr yn cael ei ddanfon)

Pan fydd yr ysgol yn teimlo bod, er gwaethaf ei hymdrechion gorau i gefnogi'r teulu, nid yw presenoldeb yn gwella, bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at y Gwasanaeth Lles Addysg. Gallai atgyfeiriad cael ei wneud pan, er enghraifft:
• Mae patrwm o bresenoldeb afreolaidd wedi datblygu;
• Mae cyfnod o ddiffyg presenoldeb di-syfl wedi ei sefydlu;
• Mae diffyg cydweithrediad rhieni wrth sicrhau presenoldeb afreolaidd plentyn
Bydd Ysgol Mynydd Bychan yn cysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i erlyn rhieni sy'n methu, heb gyfiawnhad rhesymol, i beri i'w plentyn fynychu'r ysgol yn rheolaidd, o dan adrannau 444 (1) a 444 (1A) o Deddf Addysg 1996.

Disgwyliwn fod pob disgybl yn anelu at fod yn bresennol 95%+. Cofier bod 90% yn gyfystyr ag Absenoldeb o'r ysgol am 1 diwrnod cyfan pob wythno neu 19 diwrnod mewn blwyddyn.

Atodiad Ch

Polisïau'r Ysgol

Mae gan yr ysgol bolisïau ar y pynciau canlynol. Cânt eu hadolygu yn gyson mewn ymgynghoriad gyda'r staff a'r llywodraethwyr pan fydd angen. Maen nhw ar gael yn yr ysgol i'w gweld trwy drefniant gyda'r Pennaeth.

1. Diogelu
2. Asesu, Cofnodi ac Adrodd yn ôl
3. Cwricwlwm
4. Anghenion ychwanegol
5. Mwy Abl a Thalentog
6. Cynllun Cydraddoldeb Strategol
7. Ymddygiad a disgyblaeth
8. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
9. Chwythu'r Chwiban
10. Gwrthfwlian
11. Iechyd, diogelwch a lles
12. Cynllun Hygyrchedd
13. Presenoldeb a Phrydlondeb
14. Polisi Diogelu Data
15. Polisi E-Ddiogelwch
16. Polisi Ymweliadau Addysgiadol
17. Polisi Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau
18. Rheoli Perfformiad
19. Defnydd o'r We
20. Ymddeoliad ac Ymddiswyddiad
21. Codi Cwyn
22. Gosod Targedau
23. Codi Tâl
24. Llawlyfr Ysgol
25. Taflen Wybodaeth Meithrin
26. Taflen Wybodaeth Derbyn
27. Cynllun cyhoeddi ar wybodaeth sydd ar gael o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
28. Amseroedd Ysgol
29. Ymyrraeth a Grym Rhesymol
30. Polisi Addysgu a Dysgu o Bell
31. Preifatrwydd
32. Bwyd a FFitrwydd
33. Hylendid
34. Lles Staff

Atodiad D

Ysgol Mynydd Bychan

Defnydd Delweddau Digidol / Fideo

Efallai y bydd delweddau digidol / fideo o'ch plant yn cael eu defnyddio yn achlysurol i ddathlu llwyddiannau a digwyddiadau yn Ysgol Mynydd Bychan wrth gyhoeddi hynny mewn cylchlythyrau, ar wefan yr ysgol ac ar gyfrif 'Trydar' yr ysgol. Mae'n bosibl hefyd o bryd i'w gilydd y bydd y delweddau hynny'n cael eu cyhoeddi mewn cyhoeddiadau lleol megis papurau bro ac ati.

Byddwn yn sicrhau pan fydd delweddau yn cael eu cyhoeddi na fydd modd adnabod y bobl ifanc wrth ddefnyddio eu henwau (onibai ein bod yn eich hysbysu'n wahanol).

Mewn cytundeb ag arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae croeso i rieni / gofalwyr dynnu delweddau fideo a digidol o'u plant mewn digwyddiadau'r ysgol ar gyfer defnydd personol (gan nad yw'r fath ddefnydd yn cael ei grybwyll yn y Ddeddf Diogelu Data). I barchu preifatrwydd pawb, ac mewn rhai achosion i amddiffyn, ni ddylai'r delweddau yma gael eu cyhoeddi / gwneud yn gyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac ni ddylai rhieni / gofalwyr wneud sylwad ar unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys *disgyblion* yn y delweddau digidol / fideo.

Gofynnir i rieni / gofalwyr arwyddo'r ffurflen caniatâd isod i ganiatáu'r ysgol i gymryd a thynnu delweddau o'u plant ac i'r rhieni / gofalwyr gytuno.

Ffurflen Caniatâd Delweddau Digidol / Fideo

Enw Rhiant / Gofalwr

Enw Myfyriwr / Disgybl

Fel rhiant / gofalwr y *disgybl* uchod, rwyf yn cytuno i'r ysgol gymryd a defnyddio delweddau digidol / fideo o'm mhlentyn / plant. Rwyf yn deall mai dim ond i gefnogi gweithgareddau dysgu neu mewn cyhoeddusrwydd sydd yn dathlu llwyddiant ac yn hyrwyddo gwaith yr ysgol yn rhesymol y defnyddir y delweddau yma. Ydw/

Os ydw i'n tynnu delweddau digidol neu fideo mewn, neu o, - ddigwyddiadau'r ysgol sydd yn cynnwys delweddau o blant, heblaw am rai fi, rwyf yn cytuno byddaf yn cadw i'r canllawiau yma wrth ddefnyddio'r delweddau. Ydw/

Arwyddwyd

Dyddiad

Mae cyfrif '**X**' yr ysgol yn un sydd wedi cael ei gyfyngu i rieni / gofalwyr a chyfeillion yr ysgol yn unig. Os ydych yn dymuno dilyn cyfrif yr ysgol ar '**X**', yna bydd rhaid i chi adael i Mr Iolo Williams (Dirprwy) wybod beth yw eich enw defnyddiwr er mwyn i ni allu eich caniatau i weld y negeseuon / lluniau ac ati sydd yn cael eu llwytho.
Os ydych chi'n ein dilyn yn barod, yna ni fydd angen i chi ail-lenwi'r rhan yma, ond os ydych yn gwneud cais o'r newydd, nodwch eich enw defnyddiwr isod os gwelwch yn dda:

Enw defnyddiwr ar **X** (Trydar): _____

Atodiad Dd

Ysgol Mynydd Bychan

"O'r fesen derwen a dyf"

Cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol

Fe fydd yr ysgol yn ymgeisio i:-

- Fod yn groesawgar ac yn agored
- Gynnig amgylchedd diogel, cyffyrddus, cyfeillgar ac hapus
- Alluogi pob disgybl i gyrraedd eu llawn potensial
- Gynnig cwricwlwm ac addysg gytbwys sy'n cwrdd â'r gofynion statudol.
- Gynnig addysg â disgwyliadau uchel o ran gwaith a chyrhaeddiad
- Gwrdd ag anghenion pob disgybl.
- Annog y disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac hydwyth
- Roi cefnogaeth cyson a chadarn
- Sicrhau nad yw'r disgybl yn dioddef o fwlian nac aflonyddwch
- Gynnig cyfleoedd I ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol
- Gynnig cyfleoedd i rieni / warcheidwaid fynychu cyfarfodydd a nosweithiau cwricwlaidd i drafod cynnydd eu plant ynghyd â chymryd rhan ym mywyd dyddiol yr ysgol.
- Sicrhau gwaith cartref cyson
- Sicrhau marcio cyson o'r gwaith
- Addysgu'r disgyblion i ddangos parch tuag at ei gilydd, staff yr ysgol ac eraill
- Addysgu'r disgyblion i ddangos parch tuag at yr amgylchfyd.
- Sicrhau bod y disgyblion a'u rhieni / warcheidwaid yn teimlo rhan o'r gymuned ysgol

Fe fydd y rhien i/ Warcheidwaid yn ymgeisio i :-

- Gefnogi polisi ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol
- Gefnogi polisiau'r ysgol
- Gefnogi addysg eu plentyn a gweithgareddau'r ysgol
- Sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ar amser ac yn dilyn rheolau'r ysgol ynglyn â'r wisg ysgol (Gweler llawlyfr ysgol – Gwisg ysgol)
- Roi gwybod i'r ysgol yn syth y rheswm am absenoldeb eu plentyn, boed drwy lythyr neu alwad ffôn.
- Roi gwybod yn syth i'r ysgol os yw eu plentyn yn dioddef unrhyw fath o fwlian neu aflonyddwch.
- Annog eu plentyn i ddangos parch ac i fod yn onest
- Roi gwybod i'r ysgol am unrhyw broblemau neu phryderon sydd yn gallu effeithio ar waith neu ymddygiad eu plentyn.
- Fynychu cyfarfodydd a nosweithiau cwricwlaidd i drafod cynnydd eu plentyn
- Gefnogi eu plentyn drwy sicrhau ei fod yn cwblhau ei waith cartref ac yn darllen yn gyson adref
- Roi gwybod i'r ysgol am unrhyw newidiadau o ran cyfeiriad a rhifau ffôn

Fe fydd y disgyblion yn ymgeisio i :-

- Fynychu'r ysgol yn gyson ac yn brydlon

- Wneud eu gorau yn eu gwaith ysgol ac adref
- Fod yn foesgar ac yn gymwynasgar tuag at eraill
- Ddangos parch at eraill, yn enwedig staff yr ysgol a'r disgyblion eraill ac at eiddo eraill
- Roi gwybod i'r ysgol os ydynt yn dioddef o fwlian neu aflonyddwch
- Gadw at reolau'r dosbarth a'r ysgol
- Edrych ar ôl offer ac adeilad yr ysgol
- Ddarllen yn aml adref
- I ddilyn rheolau a pholisi diogelwch wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd

Gyda'n gilydd fe ymgeisiwn i:-

- Annog y plant i gadw at reolau'r ysgol
- I barchu eraill
- Gefnogi dysgu'r plant er mwyn eu cefnogi i gyrraedd eu llawn potensial.

Enw'r plentyn:- _____

Llofnod y plentyn:- _____

Enwau'r Rhieni / Warcheidwadi: (Printiwch eich henwau os gwelwch yn dda) :-

_____

_____

Arwyddwyd :- _____
(Rhiant / Warcheidwaid)

Arwyddwyd :- _____
(Rhiant / Warcheidwaid)

Awyddwyd :-_____
Ar ran Ysgol Mynydd Bychan

Atodiad E

Dyddiadau Tymor

Tymor yr Hydref 2024

Dechrau Dydd Llun 02/09/24. Hanner Tymor Llun 28/10/24 – Gwener 01/11/24. Tymor yn gorffen Gwener 20/12/24

Tymor y Gwanwyn 2025

Dechrau Dydd Llun 06/01/25. Hanner Tymor Llun 24/02/25 – Gwener 28/02/25. Tymor yn gorffen Gwener 11/04/25

Tymor yr Haf 2025

Dechrau Llun 28/04/25. Calan Mai Dydd Llun 05/05/25. Hanner Tymor Llun 26/05/25 – Gwener 30/05/25. Tymor yn gorffen Dydd Llun 21/07/25